



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX

Dydd Iau, 18fed Hydref, 2018 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 16 Hydref 2018. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/ly Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEILLIANNAU'R CYFNOD SYLFAEN A CHYFNOD ALLWEDDOL 2 A 3 A DEILLIANNAU ARFAETHEDIG CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2017-18

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant gan ddarparu adborth cychwynnol i'r Aelodau ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 a 3 a deilliannau arfaethedig Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017-18.

(Tudalennau 5 - 16)

**3. STRATEGAETH PRESENOLDEB YSGOLION AR GYFER 2018 - 2021
"COLLI YSGOL, COLLI ALLAN"**

Ystyried adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros dro'r Gwasanaethau Llywodraethol a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, gan roi drafft llawn o strategaeth presenoldeb ysgol, 2018 - 2021 i'r aelodau.

(Tudalennau 17 - 50)

**4. DEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DWR 2010: DECHRAU ATODLEN 3 -
DRAINIO CYNALIADWY AR 07.01.19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd gan roi gwybod i'r aelodau o ddechrau atodlen 3 'Draenio Cynaliadwy' Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r gofyniad deddfwriaethol i'r cyngor ddarparu gwasanaeth newydd.

(Tudalennau 51 - 72)

5. GWASANAETH ADNODDAU DYNOL Y CYNGOR

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol sy'n rhoi trosolwg i'r aelodau o weithgarwch yr adran dros y deuddeg mis diwethaf.

(Tudalennau 73 - 90)

6. RHYBUDD O GYNNIG - WARDEN EIRA

Derbyn adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Llywodraethol yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu mewn perthynas â Rhybudd o Gynnig Warden Eira.

(Tudalennau 91 - 94)

7. YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol, gan roi manylion i'r Aelodau am yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb sydd i'w gynnal.

(Tudalennau 95 - 98)

8. RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

Derbyn adroddiad gan Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol sy'n egluro beth yw argymhellion Grŵp Llywio'r Gymraeg i'r aelodau, yn dilyn y cyfarfod ar 10 Hydref 2018.

(Tudalennau 99 - 118)

9. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

10. ARDAL CYFLE STRATEGOL PONTYPRIDD: GWEITHREDU

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Adfywio, Cynllunio a Thai sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n rhoi manylion i'r Aelodau am gyfle strategol ym Mhontypridd.

(Tudalennau 119 - 128)

11. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol**

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Simon Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Gyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Jane Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant